# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES
# 2 GORFFENNAF 2019

**PWNC:** **DIWEDDARIAD RHAGLEN YSGOLION AC ADDYSG BAND B YR 21AIN GANRIF**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed hyd yma ar Raglen Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2026.

## 2. CRYNODEB

2.1 Cytunodd y Cabinet ar y cynigion ar gyfer Rhaglen Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif ar 25ain Ebrill 2018.

2.2 Cytunodd y Cyngor ar 21ain Chwefror 2019 i ddyrannu £5.475 miliwn i arian cyfatebol Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

2.3 Mae'r cynlluniau blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer Cam 1 y rhaglen yn ehangu'r ddarpariaeth yn Ysgol Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar hen safle Ysgol Uwch Cwmcarn.

2.4 Mae'r cyfraddau ymyrryd ar gyfer y rhaglen wedi newid, fel yr amlinellir yng nghorff yr adroddiad. Mae hyn wedi arwain at leihad yng nghyfraniad y Cyngor i'r rhaglen gyffredinol o £39.15 miliwn i £26.8 miliwn.

2.5 Mae manyleb gychwynnol yr ehangiad a gynigir ar gyfer Ysgol Cae'r Drindod wedi arwain at argymhelliad i gynyddu'r dyraniad ar gyfer y prosiect hwn o £5 miliwn i £10 miliwn. Byddai'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo o'r rhaglen adnewyddu ac yn cyd-fynd â disgwyliad Llywodraeth Cymru i brosiectau fod yn arloesol ac i gael ei ystyried yn "gyfle unwaith mewn oes". Er mwyn cyflawni hyn a diogelu'r ysgol yn y dyfodol, mae'r cynnydd mewn buddsoddiad i £10 miliwn yn hanfodol.

2.6 Mae'r ddau brosiect a amlinellir yn 2.3 uchod yn y cam datblygu cynnar a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ac ati.

2.7 Ar hyn o bryd, amcangyfrifir mai £5.1 miliwn yw cyfraniad arian cyfatebol arfaethedig y Cyngor ar gyfer darparu'r ddau gynllun. Os cytunir ar y cynnydd ar gyfer Ysgol Cae'r Drindod byddai hyn yn lleihau cyfraniad cyffredinol y Cyngor o £26.8 miliwn i £26.3 miliwn.

2.8 Mae Bwrdd wedi cael ei sefydlu i gynnal adolygiad o ddarpariaeth chweched dosbarth/un rhyw/gwarged.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i Aelodau Craffu nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad a rhoi eu barn ar yr argymhelliad i gynyddu'r cyfraniad ar gyfer Ysgol Cae’r Drindod o £5 miliwn i £10 miliwn cyn ei ystyried gan y Cabinet.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 I sicrhau bod Aelodau Craffu yn cael eu diweddaru ar y Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn cael ei hystyried fel rhaglen buddsoddi cyfalaf sylweddol, tymor hir a strategol sy'n cefnogi prosiectau adeiladu cyfalaf ar raddfa fawr ledled Cymru gyda'r nod o wella adeiladau ysgolion er mwyn bodloni anghenion Addysgol a Chymunedol yr 21ain Ganrif.

5.2 Mae'r rhaglen yn canolbwyntio adnoddau ar yr ysgol iawn, yn y lle iawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ôl-16, gyda chyllid yn cael ei ddarparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

5.3 Prif amcanion y Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif, fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru, yw:

- Lleihau nifer yr ysgolion â chyflwr gwael.
- Sicrhau bod gennym yr ysgolion maint cywir yn y lleoliad iawn, gan ddarparu digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.

5.4 Cytunwyd ar argymhellion y Gweithgor Trawsbleidiol, o ran y cynigion a gynhwyswyd yn y rhaglen, gan y Cabinet ar 25ain Ebrill 2018 yn amodol ar gadarnhau cyllid ar gyfer prosiectau unigol, achosion busnes yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a'r canlyniad o ymgynghoriadau unigol.

5.5 Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a gyflwynwyd gan y Pennaeth Cyllid a’r Swyddog S151 ar 30ain Ionawr 2019. Ar ôl ystyried yr adroddiad hwnnw, cynigiodd y Cabinet y gellid rhyddhau cronfeydd wrth gefn oedd heb eu dyrannu gwerth £16 miliwn a'u defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf. O'r £16 miliwn, cynigiwyd gan y Cabinet y dylid dyrannu £5 miliwn tuag at y Rhaglen Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif.

5.6 Cafodd y cynnig ei ystyried a'i gytuno gan y Cyngor ar 21ain Chwefror 2019 i ddyrannu £5 miliwn i arian cyfatebol y Rhaglen Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif.

5.7 Cytunodd y Cyngor hefyd ar y cynnig i ddyrannu £475,000 o arbedion ymlaen llaw i'r rhaglen.

5.8 Felly, mae cyfanswm o £5,475,000 wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif.

5.9 Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Ysgrifennydd Addysg y Cabinet y byddai cyfradd ymyrraeth grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau cyfalaf Band B yn cynyddu i 65%, gyda'r partneriaid cyflawni yn cwrdd â'r 35% o'r costau sy'n weddill. Yn ogystal, bydd y gyfradd ymyrraeth ar gyfer ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion a ariennir gan gyfalaf yn 75%, gyda'r partneriaid cyflawni yn talu'r 25% o'r costau sy'n weddill. Mae'r gyfradd ymyrryd ar gyfer cynlluniau a gynorthwyir yn wirfoddol yn parhau ar 85%.

5.10 Cyfanswm yr amlen Gyfalaf (ac eithrio'r Model Buddsoddi Trefol) y cytunwyd arni mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yw £78.3 miliwn. Mae'r newidiadau i'r cyfraddau ymyrraeth o 5.9 (yn seiliedig ar y cynigion gwreiddiol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru) wedi lleihau cyfraniad y Cyngor o £39.15 miliwn i £26.8 miliwn.

5.11 Er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n amserol ac yn effeithiol, mae wedi bod yn hanfodol nodi'r cynlluniau i'w darparu o'r dyraniad 1$^{af}$ o £5.475 miliwn i fod y rhai sydd â'r flaenoriaeth uchaf o angen addysgol h.y. dim digon o leoedd os na chyflawnir y gwaith ehangu.

5.12 Y ddau gynllun cyntaf a nodwyd fel rhai blaenoriaeth ar gyfer cam 1 y rhaglen yw ehangu Ysgol Arbennig Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

5.13 Ysgol Arbennig Cae'r Drindod yw'r unig ysgol arbennig yn yr Awdurdod sy'n darparu Addysg a Chyfleusterau arbenigol ar gyfer ein disgyblion. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion o 3 – 19 oed. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 158 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae hyn yn cynyddu i 173 o fis Medi 2019, a rhagwelir mwy o dderbyniadau. Nod y Cyngor, lle bynnag y bo modd, yw ceisio addysgu pob disgybl o fewn y Fwrdeistref. Mae hyn yn atal yr angen am ddarpariaeth y tu allan i'r sir sydd nid yn unig yn gostus ond a all hefyd gael effaith sylweddol ar deuluoedd unigol

5.14 Adeiladwyd y safle presennol yn bwrpasol ym 1998 ac mae'n cynnig llawer o nodweddion unigryw ac arloesol i'n disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu eu sgiliau. Mae'n darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o Anghenion a Gofynion Addysgol Arbennig. Mae'r rhain yn amrywio o anawsterau corfforol a meddygol, anawsterau dysgu dwys lluosog ac anawsterau dysgu difrifol.

5.15 Mae'r Awdurdod eisoes wedi buddsoddi £1.3 miliwn, yn ystod y 6 blynedd diwethaf, mewn prosiectau cyfalaf yn yr ysgolion, sydd wedi cynnwys cynlluniau cynnal a chadw mawr a newid defnydd ardaloedd er mwyn cynyddu capasiti. Yn ogystal, mae'r Cyngor wrthi'n gwneud gwaith gwella yn yr ysgol gan ddefnyddio tanwariant yn y Rhaglen Ysgolion ac Addysg Band A yr 21$^{ain}$ Ganrif. Adroddwyd y rhaglen hon yn fanwl i'r Cabinet ar 10$^{fed}$ Ebrill 2019.

5.16 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae’r Drindod rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu darpariaeth ADY yn awr ac yn y dyfodol ar draws yr awdurdod. Mae'r rôl hon wedi'i gosod yn erbyn cefndir o ddatblygiadau lleol a chenedlaethol parhaus o ran ymestyn a gwella rôl a swyddogaethau presennol ysgolion arbennig ledled Cymru a thu hwnt fel eu bod yn cynnig ystod ehangach o gymorth a gwasanaethau ar ran yr ALl i ysgolion eraill, canolfannau arbenigol yn ogystal ag i staff o fewn Gwasanaeth Addysg y Cyngor. Adlewyrchir hyn yn Adroddiad Donaldson *Dyfodol Llwyddiannus* (Chwefror 2015) sy'n nodi ‘**Mae llawer o'r hyn a gynigir o ran parhad a chynnydd eisoes yn nodwedd o addysgu a dysgu mewn ysgolion sy'n gwasanaethu plant a phobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig’ (t.107)**

5.17 Fel y gwelwyd uchod, mae'r Cyngor eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ysgol o safbwynt ehangu a gwella. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y galw am le yn yr ysgol o ran y niferoedd disgyblion rhagamcanol, anghenion mwy cymhleth a newidiol y disgyblion ynghyd â gofynion y Bil Diwygio ADY wedi arwain at **sefyllfa brys** o ran ehangu'r ddarpariaeth ymhellach yn yr ysgol hon.

5.18 Mae'r Cynllun Amlinellol Strategol gwreiddiol ar gyfer y buddsoddiad Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y cynllun hwn yn cynnwys dyraniad amcangyfrifedig o £5 miliwn ar gyfer Cae’r Drindod. Fodd bynnag ers y cyflwyniad hwn mae'r Cyngor wedi cynnal dadansoddiad manylach, mewn partneriaeth â'r ysgol, sydd wedi arwain at ofyniad cyllideb tebygol o £10 miliwn ar gyfer y prosiect. Mae'r broses o lunio'r fanyleb ar gam cynnar iawn ac mae Bwrdd wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cydweithwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan er mwyn sicrhau y gall pob partner fanteisio ar y cyfle hwn i ddatblygu'r Ysgol i ddarparu ar gyfer ein teuluoedd mwyaf agored i niwed a'r Gymuned ehangach.

5.19 Ar ôl cytuno ar y manylion am y gwaith, bydd angen cyflwyno achos busnes manwl er mwyn i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mai'r disgwyliad yw i brosiectau fod yn arloesol ac i gael eu hystyried yn "gyfle unwaith mewn oes". Er mwyn cyflawni hyn a diogelu'r ysgol yn y dyfodol, mae'r cynnydd mewn buddsoddiad i £10 miliwn yn hanfodol.

5.20 Er mwyn sicrhau'r cynnydd o £5 miliwn, cynigir bod y swm hwn yn cael ei drosglwyddo o'r £33,000,000 yn y rhaglen adnewyddu o fewn y Cynllun Amlinellol Strategol. Nid yw'r ysgolion wedi'u hadnabod eto o'r swm buddsoddiad hwn ond byddent yn debygol o fod wedi cynnwys Ysgol Cae’r Drindod. Fel y nodwyd yn 5.9 uchod, mae'r gyfradd ymyrraeth ar gyfer ysgolion arbennig wedi gostwng o gyfraniad 50% i 25% ar gyfer y Cyngor. Felly mae'r cynnydd hwn i £10 miliwn yn dal i gadw cyfraniad y Cyngor fel £2.5 miliwn ar gyfer Ysgol Cae’r Drindod ac yn lleihau'r cyfraniad cyffredinol i £26.3 miliwn o £26.8 miliwn.

5.21 Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi bod ar gynnydd ers sefydlu CBSC ac yn arbennig felly yn y blynyddoedd diwethaf. Mae canran y disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel a ganlyn: Sector Cynradd: 1997 (8.9%), 2007 (12.1%), 2010 (14.4%), 2016 (16.8%). Sector Uwchradd: 1997 (6.9%), 2007 (9.0%), 2010 (10.6%), 2016 (12.3%).

5.22 Mae'r rhaglen Band B yn agwedd allweddol ar y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg corfforaethol o ran sicrhau bod digon o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi'r targed heriol o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Mae rheoliadau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu

cynnal ar gyfer ymgynghoriad ar hyn o bryd, ac os cânt eu cymeradwyo bydd angen i ni gyrraedd targedau heriol ar gyfer lleoedd ysgol dros y 5 i 10 mlynedd nesaf.

5.23 Bydd yn parhau i gefnogi darpariaeth Gymraeg lewyrchus o fewn Caerffili drwy sicrhau datblygu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle maent yn dod o dan bwysau, fel y nodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 yr Awdurdod, Dwyrain Caerffili a Bedwas/Tretomos/Machen.

5.24 Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn cwmpasu dalgylch ardal Dwyrain Caerffili yn y fwrdeistref. Mae'r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti heb gyfle i ehangu ar y safle presennol.
Mae gan yr ardal hon y cyfraddau dilyniant isaf yn y Cyngor o ran symud o ofal plant cyfrwng Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

5.25 Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â'r targedau heriol ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mae'n hanfodol creu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn yr ardal hon o'r fwrdeistref fel mater o frys.

5.26 Y cynnig, y cytunwyd arno gan yr Aelodau, ac sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Amlinellol Strategol yw adeiladu ysgol a darpariaeth gofal plant newydd (wedi'i hariannu o'r grant Ehangu Gofal Plant) ar safle Ysgol Uwch Cwmcarn gan gynyddu'r capasiti i 420 o ddisgyblion ar gost ragamcanol o £7.4 miliwn. Cyfraniad y Cyngor i'r swm hwn yw £2.6 miliwn.

5.27 Mae cyllid ysgolion a Band B addysg y 21ain ar gyfer prosiectau unigol bellach yn cael ei gyfrifo gan LlC gan ddefnyddio maint argymelledig ysgol, a gynhwysir o fewn bwletin adeiladu BB98/99, a chyfradd gytûn y metr sgwâr/disgybl ar y gost ddisgwyliedig o 2019. Nid yw'r cyfrifiad yn rhoi ystyriaeth i unrhyw gostau "annormal", h.y. halogiad, graddiant a pherygl o lifogydd. Byddai angen darparu tystiolaeth o unrhyw gostau ychwanegol a'u hystyried ar wahân yn ystod cam achos busnes Llywodraeth Cymru.

5.28 Mae gwaith dymchwel yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar safle Ysgol Uwch Cwmcarn a byddai datblygu'r cynnig yn dibynnu ar gymeradwyaeth yr achos busnes gan Lywodraeth Cymru ac ymarfer ymgynghori llawn.

5.29 Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sicrhau y bydd yr holl wybodaeth berthnasol a manyleb fanwl y gwaith ar gael i gefnogi cyflwyno achosion busnes i Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiectau uchod.

5.30 Os bydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau, bydd ymarfer ymgynghori llawn yn cael ei gynnal wedyn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

5.31 Mae Bwrdd wedi cael ei sefydlu i gynnal adolygiad o ddarpariaeth Chweched Dosbarth/Un Rhyw/Lleoedd Gwag sy'n cynnwys Aelodau Craffu, Undebau, Cynrychiolwyr Llywodraethwyr, Colegau, Penaethiaid, y GCA, Swyddogion Addysg a'r Aelod Cabinet. Mae'r ddau gyfarfod cyntaf wedi'u trefnu ar gyfer y 10$^{fed}$ Mehefin 2019 a'r 15$^{fed}$ Gorffennaf 2019.

5.32 Mae'r holl brosiectau a amlinellwyd uchod yn y cam datblygu cynnar a bydd swyddogion yn sicrhau bod aelodau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig e.e. ariannol, achos busnes, proses ymgynghori ac ati.

6. **TYBIAETHAU**:

6.1 Ni wneir unrhyw ragdybiaethau yn yr adroddiad hwn

**7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR**

7.1 Strategaeth Cyrhaeddiad Caerffili: Er mwyn codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol a'u bod yn gallu cael gafael ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiad addysgol o ansawdd uchel.

7.2 Amcanion Llesiant Caerffili 2018 i 2023. Bydd y cynnig hwn yn helpu'r Awdurdod i fodloni'r amcanion hyn, yn enwedig y canlynol:

Amcan Lles 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb

Amcan Lles 2 - Galluogi cyflogaeth

**8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

8.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gan weithio gyda phobl a chymunedau, i geisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn creu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- Cymru ffyniannus.
- Cymru wydn.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru sydd â chymunedau cydlynol.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy lle dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru asesu'r broses o wneud penderfyniadau yn eu herbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac ystyried effaith ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Mae'r egwyddor, a adwaenir hefyd fel y pum ffordd o weithio, yn cael ei hasesu isod:

- **Hir-dymor -** Mae'r rhagamcan o niferoedd disgyblion wedi'i ddefnyddio i nodi'r galw am leoedd mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod digon o leoedd addysgol ar gael yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i flaenoriaethu ysgolion o fewn y Cynllun Amlinellol Strategol.
- **Atal -** Bydd gwella ansawdd yr ystâd addysg yn gyffredinol yn cefnogi'r disgyblion yn eu haddysg a'u sgiliau yn yr hirdymor, gan eu bod yn fwy tebygol o lwyddo os yw eu profiad addysgol yn gadarnhaol.
- **Integreiddio -** Mae'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21$^{ain}$ Ganrif yn amodol ar ymrwymiadau BREEAM a Buddion Cymunedol y cynigion unigol ac yn cael eu hasesu a'u monitro o ran eu heffaith ar economi Cymru. Mae'r cynigion hefyd yn

rhan o strategaeth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

- **Cydweithio -** Mae'r Rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif yn gydweithrediad rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru i wella ansawdd yr ystâd Addysg.
- **Ymglymiad -** Drwy'r broses ymgynghori bydd y Cyngor yn sicrhau yr ymgysylltir yn llawn â'r holl randdeiliaid perthnasol, e.e. rhieni, disgyblion a'r gymuned leol. Gweithio mewn partneriaeth gydweithredol rhwng Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif a'r Is-adran Blynyddoedd Cynnar sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Bydd yr holl Asesiadau Effaith Cydraddoldeb perthnasol ar gyfer prosiectau unigol yn cael eu gwneud cyn symud i'r cyfnod ymgynghori a byddant ar gael i unrhyw bersonau sy'n dymuno cael copïau. Mae'r cynigion hyn yn cysylltu â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Strategaeth Iaith Gymraeg bum mlynedd 2017-2022 ac felly byddant yn cael effaith gadarnhaol ar Addysg Cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig mewn perthynas ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y plant a'r bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r Ysgol ac ar y rhai a fydd yn ei mynychu.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Cytunodd y Cyngor ar 21ain Chwefror 2019 i ddyrannu £5.475 miliwn i'r arian cyfatebol o Raglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

10.2 Mae'r newidiadau yn y cyfraddau ymyrraeth, sydd wedi'u hamlinellu ym mhrif gorff yr adroddiad, wedi lleihau cyfraniad y Cyngor o £39.15 miliwn i £26.8 miliwn.

10.3 Mae cam 1 y rhaglen, ehangu Ysgol Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon ar gyfanswm o £5.1 miliwn. Byddai hyn yn arwain at swm heb ei neilltuo o £375 mil o'r swm a ddangosir yn 10.1 uchod.

10.4 Os cytunir ar gynnig Ysgol Cae'r Drindod, bydd hyn yn lleihau'r cyfraniad ymhellach i £26.3 miliwn.

## 11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

11.1 Bydd hyn yn dibynnu ar gynigion penodol a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Dosbarthwyd yr adroddiad drafft yn unol â'r manylion isod. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hadlewyrchu yn y fersiwn hwn o'r adroddiad.

## 13. PWERAU STATUDOL

13.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Llywodraeth Cymru)
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Awdur: Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg

Ymgynghorwyr: Christina Harrhy, Prif Weithredwraig Dros Dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Richard Edmunds – Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol
Mark S. Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau
Y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg
Steve Harris, Pennaeth Gwella Busnes a Swyddog Adran 151 Dros Dro
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro
Ros Roberts, Rheolwr Perfformiad
Jane Southcombe, Rheolwr Cyllid Addysg
Mark Williams, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro
Steve Pugh, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol
Ian Elliott, Pennaeth, Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod
Anita Tucknutt, Pennaeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Gwyddon

**Papurau Cefndir**

Adroddiad Cabinet – Cynigion Ysgolion ac Addysg Band B yr 21ain Ganrif – 25/04/19
Adroddiad y Cyngor – Cynigion Cyllideb ar gyfer 2019/20 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 i 2023/2024 – 21/02/19